# Ysgol Llanhari

Pennaeth | Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
☏ 01443 237824 | 🖷 01443 227365 | post@llanhari.com
www.llanhari.com

3ydd o Hydref 2022

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Dyma ychydig o'n newyddion diweddar ac ambell atgoffiad. Cofiwch os gwelwch yn dda am y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfrif trydar yr ysgol @YsgolLlanhari

**Cwrs Preswyl Blwyddyn 7**
Wythnos diwethaf, cynhaliwyd cwrs preswyl cyntaf y flwyddyn ac mae'n rhaid canmol yr holl ddisgyblion a fynychodd gwrs preswyl blwyddyn 7 ym Mae Caerdydd. Cawsant dridiau hynod o brysur ac roedd cryn ganmoliaeth iddynt. Diolch yn fawr i Mr John Rivers am drefnu ac i'r holl athrawon am roi o'u hamser. Braf cael y cyfle i gynnig gweithgareddau fel hyn unwaith eto.

**Cefnogi Elusennau**
Diolch i bawb a gyfrannodd i fore Coffi Macmillan yr wythnos diwethaf a diolch i aelodau o'r 6ed dosbarth am drefnu ac ymarfer eu sgiliau pobi! Yn ystod y tymor hwn byddwn yn cefnogi elusennau Plant Mewn Angen a Diwrnod Siwmperi Nadolig yn yr adrannau cynradd ac uwchradd. O ran ein casgliad diolchgarwch am eleni, bydd disgyblion yr adran gynradd yn casglu ar gyfer y banc bwyd lleol yn ystod yr hanner tymor ac fe fydd yr adran uwchradd yn casglu arian at ein hysgol bartner yn Guadeloupe ar fore Gwener y 7fed o Hydref. Mae'r ysgol a'r ardal o'i chwmpas wedi dioddef yn sgîl corwynt Fiona. Mae cyflwyniad gan yr Adran Ieithoedd Rhyngwladol yn cael ei anfon atoch er gwybodaeth. Yn dilyn colli ein cyn-ddisgybl Gwenllian, yn ddiweddar, mae disgyblion y 6ed dosbarth yn awyddus i fabwysiadu elusen *To Wish upon a star* fel elusen yr ysgol am eleni. Cewch fwy o fanylion maes o law.

**Swydd yn Nerbynfa'r adran Uwchradd**
Rydym yn awyddus i ehangu ar ein tîm gweinyddol, ac ar hyn o bryd mae gennym wagle am swydd rhan-amser yn yr adran uwchradd. Ceir manylion ar www.eteach.com

**Cyfathrebu**
Hoffwn atgoffa'r holl rhieni i adael negeseuon absenoldeb ar y ffôn neu wneud defnydd o *Classcharts*. Yn yr adran gynradd, ebostiwch neu ffoniwch Mrs Emma Davies ar faterion dydd i ddydd ond os hoffech siarad ag aelod o staff ar fater penodol, ebostiwch post@llanhari.com os gwelwch yn dda. Hoffwn atgoffa rhieni'r adran uwchradd bod rhaid i blentyn sy'n mynd am apwyntiad ddangos tystiolaeth o'r apwyntiad i staff y dderbynfa am resymau iechyd a diogelwch. Nid oes hawl ganddynt adael y safle heb wneud hyn.

**Parcio**
Rwyf wedi derbyn cwynion am barcio wrth rhai o'n cymdogion wythnos diwethaf. Gofynnaf yn garedig i chi fod yn ystyriol o ddiogelwch eraill wrth barcio gerllaw'r ysgol.

Gyda diolch

M Thomas

Meinir Thomas
Pennaeth

# Ysgol Llanhari

Pennaeth | Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
☏ 01443 237824 | 🖷 01443 227365 | post@llanhari.com
www.llanhari.com


3rd of October 2022

Dear Parents / Carers

I'd like to share some recent news and a few reminders with you. Please take a look at all the latest information shared on our twitter account @YsgolLlanhari.

**Year 7 Residential Course**
Last week, we held our first residential course of the new academic year and all the pupils who attended the year 7 residential course in Cardiff Bay deserve high praise indeed. They had an extremely busy three days and were enthusiastic and well behaved throughout. Many thanks to Mr John Rivers for organizing and to all the teachers for giving of their time. Following a difficult two years it's great to have the opportunity to offer such activities once again.

**Supporting Charities**
Thank you to everyone who contributed to last week's Macmillan Coffee morning and thank you to members of the 6th form for organizing and practising their baking skills! During this term we will be supporting the Children in Need and Christmas Jumper Day charities in the primary and secondary departments. With regards to this year's thanksgiving collection, pupils in the primary department will be collecting for the local food bank during the half term and the secondary department will be collecting donations for our partner school in Guadeloupe on Friday morning the 7th of October. The school and the surrounding area have suffered destruction as a result of hurricane Fiona. A presentation from the Department of International Languages will be sent to you for information. Following the tragic death of Gwenllian recently, the sixth form pupils are keen to adopt *To Wish upon a star* as our designated school charity for this year. You will receive more information at a later date.

**Clerical Position in Reception of the Secondary department**
We are keen to expand our administration team, and currently have a vacancy for a part-time position in the secondary department. Details can be found at www.eteach.com

**Communication**
I would like to remind all parents to leave absence messages on the phone or make use of *Classcharts.* In the primary department, email or phone Mrs Emma Davies for day to day messages but if you would like to speak to a member of staff on a specific issue, please email post@llanhari.com I would like to remind the parents of the secondary department that any pupil who needs to leave the school for an appointment must for health and safety reasons, show evidence of the appointment to the reception staff. Pupils are not allowed to leave the school site without permission.

**Parking**
I have received complaints about parking from some of our neighbours last week. I kindly ask you to be considerate of others' safety when parking near the school.

Thanking you

M Thomas

Meinir Thomas
Headteacher